

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

Gorffennaf 14, 2014

Presennol: Linda Morris (Cadeirydd), Olwen Jones (Is Gadeirydd), Gwyn Roberts, John Morris, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones ac Emyr Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 12fed 2014.
5. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd ar yr Agenda.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd am ddatblygiadau cynlluniau'r ysgol gydol oes yn Y Bala, a'r ymgynghoriad a ddaw yn yr Hydref ar newid trefn weinyddol yr ysgolion cynradd gwledig.

7. Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis
- iii. Cymeradwywyd Ffurflen Hacker Young. Nodwyd sylwadau'r Archwilydd mewnol parthed yr angen i gynyddu'r arian wrth gefn.

8. **Cynnal y fynwent:** Adroddodd y Cyngorydd Sir iddo fynegi pryder ar ran cyngorau bychain am ddiddymu'n ddirybudd y drefn o ddigolledu a fu. Mae'n ofid mawr i Gynghorau Cymuned sy'n wynebu costau mawr i gynnal mynwent lle mae'r incwm yn isel. Codwyd y mater hefyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Mae Cyngor Cymuned Llandderfel hefyd wedi mynegi'r dymuniad i gyd-drafod er mwyn ceisio lleihau costau. Cymeradwywyd parhau gyda thrafodaethau'r Clerc gyda chyrrff eraill a all fod o gymorth.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at berchennog yr Eglwys i dynnu ei sylw at yr hollt sydd yn y wal.

Diolchwyd i Emyr Puw am ei waith gwirfoddol yn torri gwair cyn cynhebrwng yn ddiweddar.

9. **Y Wefan** Cytunwyd i ofyn i Beryl Hughes Griffiths a fyddai mor garedig a llunio paragraff o gyflwyniad i'r plwyf.

10. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Cytunodd Alan Jones Evans i ddelio gyda mater wal mewn cyflwr peryglus gyferbyn a thir Bryntirion.

- ii. Cytunodd Alan Jones Evans i ddelio gyda mater diffygion ar y golau stryd ym Mhlas Onn.
11. **Partneriaeth Penllyn:** adroddodd W D Williams fod yr Henblas yn edrych yn dda a'r gwaith yn mynd rhagddo. Adroddodd am y gwaith yn ymwneud ag asedau'r Parc.
12. **Gohebiaeth:**
- 1). **Parc Cenedlaethol Eryri:**
- i Ystyriwyd Cais NP5/70/41U sef cais ôl gweithredol i gadw pwll ym Mharc Gwyliau Pen y Garth. Penderfynwyd cymeradwyo os ydyw'r gwaith strwythurol yn ddiogel rhag bod dŵr yn gorlifo i'r pentref.
- ii Cais NP5/70/118A sef Dileu Amod Rhif 1 o Ganiatâd Cynllunio (2/6/2009) i gadw carafân fel swyddfa ym Mharc Carafanau Tŷ Isaf – Cymeradwywyd os ydyw o fewn polisi'r Parc.
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i:
- gadw sied yn Nhroed y Glyn, Llangywer
 - ychwanegu amrywiaeth o adnoddau tirwedd a gweithgaredd awyr agored yn y Fach Ddeiliog
 - gosod to ar storfa slyri yng Nghelli Grin
- iv Derbyniwyd rhestr dyddiadau prif gyfarfodydd pwyllgorau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- 2) **Gwynedd:**
- i. Derbyniwyd gwybodaeth am osod gatiâu newydd ar Lwybr 2 yn Rhosygwaliau.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am estyniad i'r cyfnod arolwg lleol ar gyfer Cynllun Gwynedd a Môn (ardaloedd tu allan i'r Parc Cenedlaethol).
- iii. Trafodwyd yr Ymgynghoriad ar Addysg Arbennig Meirionnydd a chytunwyd i gefnogi Opsiwn 4.
- 3). **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Ardal.
- 4) **Eraill:**
- i Cytunwyd i gefnogi grŵp Mynyddoedd Pawb.
- ii Nodwyd gwybodaeth am Ddeddf Gwarchod Data.
- iii Nodwyd cais am enwebiadau ar gyfer anrhydeddau'r Frenhines.
- iv Derbyniwyd gwybodaeth am bnawn agored yn Awel y Coleg 18/7/14.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 8/9/14